Tŷ'r Cwmnïau
er gwybodaeth

CYLCH GWAITH
PWYLLGOR ARCHWILIO TŶ'R CWMNÏAU

Asiantaeth Weithredol o dan yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR)

1. Cyflwyniad

1.1 Mae Bwrdd Llywio Tŷ'r Cwmnïau wedi sefydlu'r Pwyllgor Archwilio i gynorthwyo a chynghori'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch materion sy'n ymwneud ag archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Pwyllgor yn cyflawni rôl ymgynghori anweithredol.

2. Amcanion

2.1 Cynorthwyo'r Swyddog Cyfrifyddu i gyflawni ei rwymedigaethau archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, trwy ddarparu fforwm i drafod materion sy'n ymwneud ag archwilio mewnol ac allanol.

2.2 Ennyn hyder yn y systemau rheolaeth fewnol, trwy ddwyn arweiniad ac elfen annibynnol ynghylch rheolaethau ariannol a rheolaethau mewnol eraill.

2.3 Adolygu natur, graddau a chwmpas gwaith Archwilio Mewnol, a chynnig arweiniad wrth ddiffinio blaenoriaethau.

2.4 Cydlynu unrhyw adolygiadau ychwanegol gan ddarparwyr gwasanaethau archwilio allanol, archwilio mewnol neu ddarparwyr gwasanaethau ymgynghori ac arolygu eraill, ac adolygu ymatebion rheolwyr.

2.5 Darparu asesiad gwrthrychol o ddatganiadau ariannol diwedd-blwyddyn ac adroddiadau cysylltiedig, a rhoi cyngor i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch cymeradwyo'r datganiadau.

3. Aelodaeth

3.1 Cadeirydd Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Llywio

3.2 Aelodau

3.2.1 Dau aelod Annibynnol o'r Bwrdd Llywio
3.2.2 Prif Weithredwr a Chofrestrydd; Swyddog Cyfrifyddu
3.2.3 Cyfarwyddwr, FRM2, Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio (BERR)

3.3 Yn bresennol trwy wahoddiad

3.3.1 Cyfarwyddwr Cyllid
3.3.2 Ysgrifennydd y Pwyllgor Archwilio
3.3.3 Rheolwr, Archwilio Mewnol, BERR
3.3.4 Cyfarwyddwr, NAO a Phennaeth Ymgysylltu Archwilio
3.3.5 Eraill pan fo hynny'n briodol

3.4 Cworwm

3.4.1 Bydd y Pwyllgor wedi'i gyfansoddi'n gywir pan fydd dau o'r pum aelod parhaol yn bresennol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn aelod annibynnol.

4. Amlder a lleoliad cyfarfodydd

4.1 Cynhelir o leiaf dri chyfarfod ar wahân ond fel arfer, cynhelir pum cyfarfod yn ystod pob blwyddyn ariannol. Gellir cynnal cyfarfodydd o'r fath yn Llundain, yng Nghaerdydd neu yng Nghaeredin, yn ddibynnol ar y lleoliad mwyaf cyfleus a chost-effeithiol.

4.2 Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn talu costau teithio rhesymol yr aelodau annibynnol.

4.3 Bydd cofnodion yn cael eu paratoi ar gyfer pob cyfarfod. Byddant yn cael eu hysgrifennu a'u dosbarthu er mwyn cytuno arnynt a gwneud sylwadau yn eu cylch cyn pen deg diwrnod gwaith i bob cyfarfod, ac wedi hyn, byddant yn cael eu dosbarthu i'r Bwrdd Llywio.

5. Dyletswyddau

5.1 Derbyn adroddiadau gan Archwilio Mewnol (a sefydliadau eraill sy'n cynnig sicrwydd) ac ymatebion y rheolwyr o bryd i'w gilydd.

5.2 Trafod materion pwysig sy'n codi o'r adroddiadau hynny gydag unrhyw aelod o'r Pwyllgor Archwilio (neu unrhyw unigolyn arall), ynghyd ag ymatebion y rheolwyr.

5.3 Darparu cymorth ac arweiniad i'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch materion sy'n ymwneud â pholisi cyfrifyddu, rheolaeth fewnol a Llywodraethu Corfforaethol.

5.4 Cyfrannu arweiniad annibynnol ynghylch rheoli risg, rheolaeth ariannol a monitro a chynghori ynghylch mesurau sy'n cael eu cymryd i reoli'r rhain yn unol ag arfer gorau.

5.5 Ystyried y rhaglen anghenion archwilio gan archwilwyr mewnol ac allanol, y goblygiadau sy'n codi o ran adnoddau a ffynonellau gwasanaethau archwilio ac ymgynghori.

5.6 Adrodd ei weithgareddau a'i ganfyddiadau i'r Bwrdd Llywio pan fo hynny'n briodol.

5.7 Rhoi cyngor ynghylch ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol blynyddol, ac adolygu'r datganiadau.

5.8 Bod yn bwynt cyfeirio canolog a chyflawni rôl ragweithiol wrth lywio archwilio mewnol, archwilio allanol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.

5.9 Cyfarfod ag archwilwyr mewnol ac allanol yn annibynnol os bernir bod hynny'n briodol.

5.10 Adolygu materion sy'n ymwneud â pherfformiad ac effeithiolrwydd gwaith Archwilio Mewnol.

5.11 Adolygu perfformiad y pwyllgor yn rheolaidd, gan gydymffurfio gyda gweithdrefnau arfer da.